

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar ddydd Mercher, Medi 4^{ydd}, 2019 am 6.30 yh.

Presennol

| | | | |
|------------|-------------|------------------|----------------|
| Cynghorwyr | R.A. Davies | W.D. Evans | Mrs Ll. Latham |
| | D. Hopkins | Mrs J.E. Collins | |

Ymddiheuriadau

| | | | |
|------------|-----------------|------------------|---------------|
| Cynghorwyr | I. Rh. Llewelyn | Mrs K.D.L Davies | Mrs C. Thomas |
|------------|-----------------|------------------|---------------|

590.

Datgan Buddiant

Roedd yr Aelodau wedi datgan diddordeb yn yr amrywiol fudiadau y maent yn gysylltiedig â nhw, ac nid oeddent wedi cymryd rhan yn y trafodaethau a ddilynodd neu chwaith wedi pleidleisio ar y ceisiadau hyn. Llofnodwyd copïau o'r ffurflenni datgan, i'w cadw gan y Clerc. Derbyniwyd y datganiadau canlynol::

| | |
|---------------------------|--|
| Y Cynghorydd R. A. Davies | Archwilydd Eglwys Plwyf Llandybïe Archwilydd Cymdeithas Henoed a Phensiynwyr Llandybïe Ysgrifennydd <i>Fields in Trust</i> Cymru, Llandybïe Ysgrifennydd a Thrysorydd Clwb Tennis Llandybïe |
| Y Cynghorydd Ll. Latham | Yn gyflogedig gan Mudiad Meithrin |
| Y Cynghorydd D. Hopkins | Ymddiriedolwr <i>Fields in Trust</i> Cymru, Llandybïe |

591.

Ceisiadau am gymorth ariannol

Yn unol â Chofnod 693/95, aeth y Pwyllgor ati i ystyried y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol, a phenderfynwyd argymell i'r Cyngor fel a ganlyn:

Ceisiadau cyffredinol a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 137 ac Adran 145

Enw'r mudiad

Swm a argymhellir

| | |
|--|-------|
| B.L.A.S – Bywyd wedi Strôc | £300 |
| Canolfan Therapi Plant, Bobath Cymru | £200 |
| Côr Merched Llandybïe | £300 |
| Cylch Meithrin Saron a'r Hendre | £300 |
| Cylch Meithrin Plant Bach Y Llan | £300 |
| Cyngor Ysgol Llandybïe | £400 |
| Cymdeithas Henoed a Phensiynwyr Llandybïe | £400 |
| Eglwys y Plwyf, Llandybïe – cynnal a chadw goleuadau'r Nadolig | £200 |
| Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | £1000 |
| Gofal mewn Galar - Cruse | £200 |
| Grŵp 'Ifanc eu Hysbryd' Penygroes | £300 |

Cadeirydd

| | |
|--------------------------|------|
| Merched y Wawr Penygroes | £200 |
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr | £100 |

Argymhellion eraill:**Eglwys y Plwyf Llandybïe - gwasanaeth i gloc y tŵr**

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Eglwys y Plwyf, Llandybïe ar gyfer gwasanaethu cloc y tŵr yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Eglwysi Plwyf 1957, Adran 2, ond fe ohiriwyd cynnig cymorth ariannol tan i gopi o wir gostau'r gwaith i gloc y tŵr gael ei dderbyn.

(ii) Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin. Cytunwyd cynnig grant i Ffermwyr Ifanc Llandybïe, ac argymhellwyd gwrthod y cais hwn.

(iii) Mudiadau eraill:

Derbyniwyd ceisiadau oddiwrth y mudiadau a restrir isod, ond gwrthodwyd y rhain gan na chyflwynwyd unrhyw gyfrifon:

Cŵn Tywys Llanelli a'r Cylch
Grŵp Gweithredu Ysbyty Dyffryn Aman
Gŵyl Gerdd Dant Llanelli
Menter Bro Dinefwr
Y Lloffwr

Ceisiadau gan fudiadau lleol a ystyrir yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ynghylch y grym i hyrwyddo neu wella Llesiant Economaidd, Cymdeithasol neu Amgylcheddol:

| | |
|------------------|------|
| Clwb Paned Saron | £200 |
|------------------|------|

Ceisiadau gan neuaddau pentre, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976, Adran 19:

| | |
|------------------------------------|-------|
| Neuadd Lesiant Penybanc | £625 |
| Cymdeithas Lesiant Glowyr Cwmgwili | £625 |
| Neuadd Goffa Gyhoeddus Llandybïe | £1220 |

Ceisiadau gan glybiau chwaraeon / hamdden a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976 (Darpariaethau Amrywiol), Adran 19:

| | |
|--------------------------------|------|
| Clwb Bowlio Mat Byr Penygroes | £200 |
| Clwb Bowlio Dan-do Dinefwr | £150 |
| Clwb Rygbi Ieuenctid Llandybïe | £300 |
| Clwb Tennis Llandybïe | £300 |

Argymhellion eraill:

Dim.

Ceisiadau am gynnal a chadw manau chwarae a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976 (Darpariaethau Amrywiol), Adran 19:

| | |
|--|------|
| Cymdeithas Lesiant Glowyr Cwmgwili - gardd | £200 |
| <i>Fields in Trust</i> Llandybïe | £650 |

Ceisiadau am arian tuag at gynnal a chadw claddfeydd, a ystyriwyd yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 214.

| | |
|-----------------------------------|------|
| Saron, Capel y Bedyddwyr | |
| Capel Jerusalem, Penygroes | £250 |
| Eglwys Efyngylaidd Penygroes | £250 |
| Eglwys Mynydd Sion, Penygroes | £250 |
| Eglwys y Plwyf, Llandybïe | £750 |
| Capel yr Annibynwyr, Penygroes | £250 |
| Capel y Bedyddwyr Soar, Llandyfan | £250 |

592.

Cyflwyno'r Grantiau Ariannol

Er mwyn helpu codi proffil y Cyngor Cymuned, **argymhellwyd** bod y grantiau a roddir i'r amrywiol fudiadau yn cael eu cyflwyno mewn seremoni wobrwyo a gynhelir yng Nghlwb Rygbi Llandybïe ar Hydref 1^{af}, 2019 am 7.30 yh.

593.

Codi tâl am gyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc nad oedd Clwb Rygbi Penygroes am lofnodi Cytundeb Llogi ar gyfer 2019/2020 gan nad oeddent yn gallu defnyddio'r cae oherwydd nad yw'r llifoleuadau yn gweithio. Clwb Rygbi Penygroes sydd yn berchen ar y llifoleuadau ac maen nhw'n archwilio'r posibilïadau ceisio am arian grant er mwyn amnewid y goleuadau. Bydd y Cyngor yn dal i dorri'r glaswellt yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth torri glaswellt, ond ni fyddwn yn gwneud unrhyw waith arall ar y cae.

Argymhellwyd codi'r ffioedd a restrir isod yn ystod y cyfnod 1/4/2020 i 31/3/2021.

Clwb Pêl-droed Ieuentid Saron - £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r cae chwarae a'r cyfleusterau ym Mharc Saron.

Clwb Bowlio Llandybïe - £3000 y flwyddyn am ddefnyddio'r grîn bowlio, a chyfraniad o £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r pafiliwn.

Clwb Tennis Llandybïe – £200 y flwyddyn a chyfraniad o £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r pafiliwn.

Medi 4^{ydd}, 2019

Clwb Rygbi Penygroes - £500 y flwyddyn am ddefnyddio'r cae rygbi ym Mharc Penygroes os bydd y clwb yn gofyn am gytundeb llogi.

Bydd yr Ardaloedd Chwarae Aml-Ddefnydd (MUGA) yng Nghapel Hendre, Llandybïe a Phenygroes yn aros yn ddi-dâl at ddefnydd y cyhoedd.

594.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.50 yh.